# TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR

## TGAU (NEWYDD)
## CYMRAEG IAITH

## TACHWEDD 2020

© WJEC CBAC Cyf.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn: https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en

**Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

**Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.


| **Uned** | **Tudalen** |
|---|---|
| Uned 1 | 1 |
| Uned 2 | 3 |
| Uned 3 | 5 |

**TGAU Cymraeg Iaith Uned 1**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd**

**TACHWEDD 2020**

## Sylwadau cyffredinol

Diolch i'r canolfannau hynny a gyflwynodd draciau llafar i'w safoni. Bu'n gyfnod heriol i'r rhai oedd yn sefyll yr asesiadau ac i'w hathrawon yn ogystal. Cyflwynwyd gwaith nifer fechan o ymgeiswyr i'w asesu yn y gyfres hon a llwyddwyd i lwytho'r traciau llafar ar *Surpass* yn ddigon didrafferth. Cynghorir canolfannau i wneud hyn mewn da bryd. Cyflwynwyd gwaith sawl ymgeisydd yn hwyr ac mae'n debyg bod y sefyllfa sydd ohoni eleni wedi golygu heriau newydd i sawl canolfan. Dylid darllen y canllawiau'n ofalus er mwyn osgoi problemau fel diffyg taflenni marciau a nodiadau ymgeiswyr. Mae'n ychwanegu cryn amser i'r broses safoni pan fo angen cysylltu â chanolfannau am ddeunyddiau coll. Roedd ansawdd y sain yn dda ym mhob achos a chafwyd recordiadau gweledol yn ogystal, a'r rhain yn profi bod yr ymgeiswyr yn cyflwyno'n annibynnol a heb ddibynnu ar nodiadau. Dylid nodi dyddiad, manylion yr uned a manylion y ganolfan yn ogystal ag enwau a rhifau arholiad yr ymgeiswyr; cafwyd sawl achos eleni o draciau gydag enwau a rhifau'r ymgeiswyr yn unig. Mae gan y canolfannau ddealltwriaeth gadarn o ofynion y ddwy dasg lafar a llwyddant i drosglwyddo'r ddealltwriaeth honno'n effeithiol i'r ymgeiswyr gan eu harfogi i lwyddo. Gwelir sawl canolfan yn datblygu arddull y cyflwyniadau unigol yn dilyn gwrando ar enghreifftiau a chynghorion mewn hyfforddiant. Diolch i chi am fod mor barod i ddatblygu gwaith llafar eich ymgeiswyr.

## Crynodeb o brif bwyntiau

Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil
Cafwyd cyflwyniadau amrywiol o ran eu testunau a dangosai pob ymgeisydd ddiddordeb yn ei faes.

Mae arddull y cyflwyniadau wedi datblygu dros y blynyddoedd diweddar a gwelwyd arfer dda yn y gyfres hon eto, yn bennaf wrth ystyried gofynion y gynulleidfa. Yn sicr, mae trefn amlwg i'r holl gyflwyniadau gyda rhai yn enwi agweddau ac yn eu hailadrodd yng nghorff y cyflwyniad ac eraill yn fwy cynnil wrth ddatblygu eu testun. Byddai ambell ymgeisydd, er mwyn cael gwell teimlad o fwriad, yn cael budd o holi ei hun cyn dechrau; 'Beth ydw i'n ceisio'i wneud yn y cyflwyniad hwn?' neu 'Beth ydw i eisiau i'r gynulleidfa ei wybod erbyn y diwedd?'
Mae ymgeiswyr yn gynyddol ymwybodol o'r angen i werthuso a dehongli'r wybodaeth a gyflwynir a cheir llai o restru ffeithiau cryno yn un rhes. Cafwyd cyflwyniadau ffeithiol heb fawr o ddehongli ond, hyd yn oed yn yr achosion hyn, detholwyd gwybodaeth berthnasol a diddorol a dangoswyd y gallu i flaenoriaethu.

Dylid rhoi sylw i wallau iaith cyffredin:

- Geiriau Saesneg am eiriau ddylai fod yn gyfarwydd e.e. *difference, average, interested*
- Cystrawen e.e. o'r oed o dri deg
- Treiglo ansoddair heb fod angen e.e. hyfforddwr dda
- Treiglad meddal ar ôl arddodiad.



© WJEC CBAC Cyf.

**Ymateb a Rhyngweithio**

Clywyd trafodaethau naturiol gan y mwyafrif ond roedd nerfusrwydd yn arwain rhai i orbaratoi ac roedd y rhyngweithio yn yr achosion hyn yn ffug iawn ac yn llesteirio datblygiad naturiol y dadleuon.  Golyga hyn fod nifer o ymgeiswyr yn colli cyfle i gyflwyno syniadau newydd sy'n codi o'r ddadl ar y diwrnod.  Mae angen sicrhau bod ymgeiswyr yn gwrando ar ymatebion ei gilydd ac yn datblygu ar y dadleuon hynny cyn symud ymlaen at ran arall o'r drafodaeth.

Llwyddodd y mwyafrif llethol i drafod am ddeng munud ac mae hyn yn ddatblygiad i'w groesawu gan eu bod felly'n trafod yn eang ac yn ddigon manwl.  Mae'n braf clywed pobl ifanc yn trafod materion cyfoes sy'n effeithio ar eu bywydau gan ddatgan barn yn eithaf cadarn a chynnig ambell ateb i'r problemau.

Mae angen tystiolaeth wrth fynegi barn. Wrth gyflwyno gwybodaeth o waith ymchwil mae angen mynegi barn am y canfyddiadau.

**Asesu**

Er bod ambell ganolfan yn agos iawn ati o ran y marciau, roedd tuedd i fod fymryn yn hael a hynny lle nad oedd digon o werthuso, dehongli a dadansoddi ac wrth ystyried lefel her yr eirfa a chywirdeb ieithyddol (y dasg unigol).  Yn achos y dasg Ymateb a Rhyngweithio, rhaid ystyried sylwedd a chysondeb y cyfraniadau wrth benderfynu ar farc.  Ni ddylid gwobrwyo marciau ar frig y band os nad yw'r ymgeisydd yn dechrau ateb un neu ddau o ofynion y band nesaf.



© WJEC CBAC Cyf.

**TGAU Cymraeg Iaith Uned 2**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd**

**TACHWEDD 2020**

## Sylwadau cyffredinol

Llongyfarchiadau i'r holl ymgeiswyr am eu gwaith yn ystod cyfnod ansicr iawn. Ychydig o ymgeiswyr oedd yn y gyfres hon a dylid ystyried y cyd-destun hwn wrth ddarllen y sylwadau ar yr ymatebion. Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr wedi ateb pob cwestiwn ac wedi dangos gofal wrth wneud, gyda rhai yn amlwg yn gwirio atebion ac yn addasu yn ôl yr angen. Mae'n drueni nad yw lleiafrif bychan o ymgeiswyr yn ceisio ateb unrhyw gwestiwn sydd yn gofyn am frawddegu a rhesymu wrth ateb. Gall ymgeiswyr adalw gwybodaeth uniongyrchol yn effeithiol, er bod ateb o gof yn hytrach nag ailddarllen i wirio ffeithiau yn gallu bod yn broblem. Yn gyffredinol gydag Adran A, yr hyn sydd ei angen yw gwirio atebion ac ystyried union ofynion y cwestiwn fel bod atebion yn bwrpasol ac yn berthnasol. Gwnaed ymdrech deg i apelio at y darllenydd yn y tasgau ysgrifennu ac roedd hyd yn oed yr ymgeiswyr oedd wedi osgoi atebion estynedig Adran A wedi ysgrifennu'n estynedig yn Adran B. Mae safon y cynnwys yn parhau i ragori ar safon y mynegiant bron ym mhob achos.

## Crynodeb o brif bwyntiau

### Adran A

Gwelwyd bod mwyafrif yr ymgeiswyr yn ateb yn bwrpasol ac yn ofalus gan wirio atebion neu ddatganiadau mewn tabl yn y darn darllen cyn symud ymlaen ond gwelwyd eraill yn methu ag ateb union ofynion y cwestiwn e.e. A2 lle'r oedd rhai yn trafod a oedd y poster yn denu sylw yn hytrach nag yn eich perswadio i fynd i weld y pantomeim.

Cafwyd rhai trafodaethau da ar effaith nodweddion arddull yn A9 ac mae hyn yn dangos ôl hyfforddi cyson ar draws yr ystod yn y canolfannau. Er bod y mwyafrif yn gwneud ymgais i drafod effaith nodweddion arddull, serch hynny, ychydig iawn oedd yn gallu codi uwchlaw atebion cyffredinol y tro hwn. Dylid cofio bod angen trafod y nodwedd yng nghyd-destun y darn dan sylw.

A11 a roddodd yr her fwyaf i ymgeiswyr gyda'r mwyafrif yn ailadrodd darnau amherthnasol o'r darn darllen heb wneud ymgais i resymu'n annibynnol.

Wrth gyfuno gwybodaeth, llwyddodd y mwyafrif i restru gwybodaeth am Branwen o'r amrywiol ddarnau darllen ond canran fechan o'r ymgeiswyr a lwyddodd i berthnasu gwybodaeth gyfoes am y chwedl i ddangos sut y mae'n parhau i gael ei defnyddio heddiw.

Cafwyd atebion da i gwestiwn A13, y tasgau Golygu ac roedd yr ymateb i'r cwestiwn newid cywair iaith yn dda iawn. Ychydig iawn o ymgeiswyr a lwyddodd i brofi dealltwriaeth o ddau air yn gywir yn (c), serch hynny.



© WJEC CBAC Cyf.

**Adran B**

B1: Profodd y dasg rhedeg arddodiaid yn heriol gan brofi bod gwallau yn y maes hwn wedi gwreiddio'n ddwfn er gwaethaf ymdrechion athrawon e.e. drosta hi neu atych chi. Roedd yn rhyfeddol bod tua hanner yr ymgeiswyr wedi methu ag adnabod y rhagenw cywir yn (b) ac wedi nodi 'ei tŷ nhw' fel ateb. Er eu bod yn camddefnyddio rhagenwau yn eu hysgrifennu eu hunain, maent yn gallu adnabod gwall o'i osod ochr yn ochr â'r ateb cywir fel rheol. Her arall oedd cywiro 'mae'n nhw'.

O ran y tasgau ysgrifennu, y daflen wybodaeth oedd y dasg fwyaf poblogaidd a chafwyd tasgau digon difyr ac amrywiol.

Gwelwyd y nodweddion canlynol i'w canmol yn eu gwaith:

- Ysgrifennu trefnus ac estynedig
- Y goreuon yn datblygu syniadau'n weddol fanwl
- Y gwaith yn llifo'n naturiol o un pwynt i'r llall gydag agoriad a diweddglo pwrpasol, yn arbennig yn y taflenni gwybodaeth
- Defnydd pwrpasol o nodweddion arddull i greu effaith e.e. cwestiynau rhethregol
- Geirfa ymgeiswyr yn dda ac yn rhagori ar lefel cywirdeb.

Fodd bynnag roedd yna wendidau amlwg megis ffurf yn ansicr gyda'r cywair yn rhy anffurfiol a llafar. Gwelwyd hefyd ddiffyg datblygu syniadau neu gyflwyno digon ohonynt .

Mae cywirdeb ieithyddol yn parhau i ddioddef a byddai gwirio'u gwaith cyn diwedd yr arholiad yn rhoi cyfle i waredu ambell wall esgeulus – treiglad ar ôl arddodiad / rhedeg arddodiaid / atalnodi sylfaenol / berfau gwallus / diffyg cytundeb berf a rhagenw / treigladau amrywiol ar ôl 'yn' yn anghywir.



© WJEC CBAC Cyf.

**TGAU Cymraeg Iaith Uned 3**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd**

**TACHWEDD 2020**

## Sylwadau cyffredinol

Gan mai carfan fechan iawn o ymgeiswyr a gofrestrwyd ar gyfer y gyfres hon o arholiadau roedd yr ystod gallu a chyrhaeddiad yn gyfyngedig yn atebion y papurau. Ymdrechodd bron pob un i ateb holl gwestiynau'r papur arholiad gan geisio cymhwyso gwybodaeth a sgiliau i ofynion y cwestiynau amrywiol. Yn ôl y disgwyl, roedd y cwestiynau byrion yn Adran A yn caniatáu mynediad i'r ymgeiswyr oll, ond achosodd y cwestiynau estynedig fwy o drafferth gan gyfyngu ar allu'r ymgeiswyr i ennill marciau uwch. Diolch i'r canolfannau am hyfforddi'r ymgeiswyr i feithrin yr amrywiol sgiliau i ymdopi â gofynion gwahanol gwestiynau ac am annog meddwl annibynnol.

## Crynodeb o brif bwyntiau

Cafodd yr ymgeiswyr drafferth i esbonio effaith y dechneg yn A3 gan gyflwyno atebion cyffredinol ac atebion stoc megis “gwneud i ni feddwl” a “gwneud i ni fod eisiau darllen mwy” yn hytrach nag esbonio'r cwestiwn rhethregol yng nghyd-destun yr hysbyseb ei hun. Roedd hyn hefyd yn wir wrth geisio cyfiawnhau bwriad Darn Darllen 4 yn A7.

Er i ni gael atebion perthnasol i “Pa fath o berson yw Shoned Owen?” yn A8, daeth yn amlwg bod geirfa'r ymgeiswyr yn gyfyngedig wrth geisio disgrifio nodweddion ei chymeriad. Mae hon yn elfen mae angen rhoi sylw iddi i ymgeiswyr sy'n anelu am radd C.

Prin oedd yr ymgeiswyr a lwyddodd i adnabod yr idiomau yn A9. Byddai gwaith pellach ar adnabod a defnyddio idiomau hefyd o fantais wrth ateb cwestiynau Adran B.

Mae'r elfen gymharu wedi gwella yn ystod y cyfresi arholiadau diweddar a gwelwyd ymdrech dda gan rai o'r ymgeiswyr yn A11. Eto i gyd, mae angen gofalu bod yr ymgeiswyr yn dehongli wrth gymharu er mwyn ennill marciau uwch.

Roedd yr elfennau perswadio a mynegi barn i'w gweld yn lled gyson yng ngwaith yr ymgeiswyr yn Adran B. Amrywiol oedd hyd y darnau gyda chynllunio a strwythuro atebion yn achosi problemau.

Er bod elfennau ieithyddol eithaf cryf yng ngwaith rhai ymgeiswyr, roedd gwallau elfennol, cystrawen Seisnig a brawddegau anghyflawn yn ogystal â geiriau Saesneg yn nodweddiadol o waith y garfan a safodd yr arholiad yng nghyfres Tachwedd 2020.



© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Cyf.